**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon,
a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

28 Mawrth 2023

Diogelu'r casgliadau cenedlaethol yn Amgueddfa Cymru

Annwyl Dawn,

Ysgrifennaf atoch wedi i ni drafod gohebiaeth a ddaeth i law gan Amgueddfa Cymru (dyddiedig 22 Chwefror 2022) yn dilyn craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym:

> *"Er ein bod yn teimlo bod y setliad ar gyfer Amgueddfa Cymru yn rhesymol dros y ddwy flynedd nesaf, mae'r rhagolygon tymor hwy yn fwy ansicr ac yn sicr yn peri rhai heriau. O'r herwydd ni allwn roi'r sicrwydd penodol o'r hyn rydych yn ei geisio. Mae problemau strwythurol sylweddol yn bodoli yn adeiladau Amgueddfa Cymru sy'n golygu bod yna risg parhaus i'n casgliadau cenedlaethol."*

Mae Amguedda Cymru yn nodi bod yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar draws eu holl safleoedd yn £65 miliwn o leiaf, gyda thros chwarter o'r eitemau sydd angen gwaith cynnal a chadw (£15miliwn) yn cael eu hystyried "yn hanfodol a sydd angen eu hatgyweirio ar frys". Yn ogystal, mae hefyd angen o leiaf £25 miliwn ar gyfer gwaith mecanyddol, trydanol a phlymio ar safle Parc Cathays. Mae hyn yn gyfanswm o £90miliwn ar gyfer gwaith sydd ei angen dros y degawd nesaf.

Rydym yn nodi'r pryderon hyn ochr yn ochr â'r rhai a godwyd yn flaenorol gan y Llyfrgell Genedlaethol a ddywedodd wrth y Pwyllgor fod "*perygl difrifol iawn i'r casgliadau heb gyllid Ychwanegol*", y byddai'n eu tybio i fod yn gwbl annerbynniol.[1]

Mae'r Pwyllgor wedi codi pryderon am y mater hwn gyda chi droeon. Fel yr amlinellwyd yn adroddiadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23 a 2023/24, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai fod bygythiad difrifol i rai casgliadau pwysig. Mae'r ddau sefydliad hwn o werth diwylliannol sylweddol i'n cenedl ac



[1] Llythyr gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 (Saesneg yn unig)

mae'n rhaid ystyried sut y darperir cyllid iddynt er mwyn diogelu ein trysorau cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Pa sicrwydd y gallwch ei roi i'r Pwyllgor fod dyfodol y casgliadau cenedlaethol a gedwir yn Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ddiogel? Ymhellach, a allwch chi amlinellu pa gynlluniau sydd gennych ar waith i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i alluogi'r ddau sefydliad i wneud y gwaith cyfalaf sydd ei angen dros y blynyddoedd nesaf i ddiogelu'r trysorau hyn?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.